OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3278

## Gorchymyn Sir Ceredigion (Newidiadau Etholiadol) 2002

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ceredigion (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Sir Ceredigion fel y'u sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Aberteifi 1994(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "map A" ("*map A*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "map A Gorchymyn Adrannau Etholiadol Cymuned Aberystwyth 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (**2**);

ystyr "map B" ("*map B*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "map B Gorchymyn Adrannau Etholiadol Cymuned Aberteifi 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976;

ystyr "map C" ("*map C*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a farciwyd "map C Gorchymyn Adrannau Etholiadol Cymuned Llanbadarn Fawr 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976.

### Adrannau etholiadol

**2.**—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Sir Ceredigion a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Aberteifi 1994 wedi'u diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Sir Ceredigion, rhennir y Sir honno yn 40 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno, fel y'i dynodir ar y mapiau ac fel y'i diffinnir â llinellau coch.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

(**1**) Mae enw'r Sir wedi'i newid o Sir Aberteifi i Geredigion yn unol ag adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

(**2**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

**Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol**

**3.** Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*E.Hart*
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

3 Rhagfyr 2002